# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Consensus community support Limited**

**Fflatiau Lôn Pisgwydd**
**Lôn Pisgwydd**
**Caerfyrddin**
**SA31 1SN**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

16/09/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Consensus community support Limited

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cymorth Cartref |
| Darparwr Cofrestredig | Consensus Community Support Limited |
| Lleoedd cofrestredig | 0 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 10 Ionawr 2023 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

## Crynodeb

Mae'r bobl yn gadarnhaol iawn am y gwasanaeth y maent yn ei gael. Mae'r gweithwyr gofal yn broffesiynol a medrus iawn ac wedi datblygu cydberthnasau pwysig â phobl sy'n cael effaith gadarnhaol ar eu llesiant. Mae'r cynlluniau personol unigol yn rhoi arweiniad effeithiol i'r gweithwyr cymorth ar y ffordd orau o ddiwallu anghenion y bobl.

Caiff y gwasanaeth ei arwain yn dda iawn gan reolwr cefnogol sy'n hawdd mynd ato. Maent wedi llunio diwylliant sy'n cefnogi pobl i fod mor annibynnol â phosibl. Mae'r darparwr yn goruchwylio'r gwasanaeth yn dda iawn drwy systemau sicrhau ansawdd sy'n canolbwyntio ar welliant parhaus a datblygiad.

## Llesiant

Mae'r bobl yn cael cymorth wedi'i bersonoli, ac yn gallu manteisio ar gyfleoedd gwahanol sy'n gwella eu llesiant. Mae gweithwyr cymorth yn annog pobl i fod mor annibynnol â phosibl ac i wneud pethau sy'n bwysig iddynt. Mae'r rheolwr yn cynnwys gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol er mwyn helpu'r bobl i gadw mor iach â phosibl. Caiff y bobl, eu gweithwyr cymorth a gweithwyr proffesiynol eu cynnwys yn y gwaith o ddatblygu cynlluniau personol. Mae'r bobl yn pennu nodau sydd o bwys iddynt ac yn gwerthuso eu cynnydd gyda chymorth gan eu gweithwyr allweddol.

Mae gan y bobl reolaeth am benderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau a chânt eu cefnogi i weithio tuag at eu nodau unigol. Mae'r gweithwyr cymorth yn adnabod y bobl yn dda, yn deall eu hanghenion ac yn cymryd amser i feithrin cydberthnasau cadarnhaol a llawn ymddiriedaeth â'i gilydd.

Caiff y bobl eu diogelu rhag niwed gan fod y prosesau recriwtio a hyfforddi yn sicrhau eu bod yn cael y cymorth cywir. Caiff hyfforddiant a datblygiad proffesiynol parhaus eu hannog ac mae gweithwyr gofal yn cofrestru â rheoleiddiwr y gweithlu, sef Gofal Cymdeithasol Cymru. Caiff y bobl eu hamddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod gan fod y staff yn gwbl ymwybodol o'u cyfrifoldebau i godi pryderon.

Ceir diwylliant sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn y gwasanaeth ac mae gan bobl lais am fod yr Unigolyn Cyfrifol yn eu hadnabod yn dda ac yn eu cynnwys mewn ymweliadau chwarterol. Caiff y wybodaeth hon ei chofnodi mewn adroddiad gyda chynllun gweithredu clir a chaiff ei defnyddio ochr yn ochr ag amrywiaeth o archwiliadau mewnol i lywio'r Adolygiad o Ansawdd y Gofal bob chwe mis.

## Gofal a Chymorth

Mae'r bobl yn fodlon iawn ar y gwasanaeth a gânt. Cânt eu cefnogi gan dîm o weithwyr cymorth cyfarwydd a phroffesiynol, sy'n eu hannog i fyw mor annibynnol â phosibl. Gwelsom lawer o ryngweithio parchus a chadarnhaol rhwng y bobl a'u gweithwyr cymorth yn ystod yr arolygiad. Mae'r diwylliant galluogi yn y gwasanaeth yn hyrwyddo annibyniaeth, mae hyn wedi helpu pobl i symud i'w cartrefi eu hunain, mynd ar wyliau a chynnal cydberthnasau pwysig gyda theulu a ffrindiau.

Mae'r darparwr wedi cyflwyno system gynllunio electronig effeithiol. Mae’r bobl, eu cynrychiolwyr, gweithwyr cymorth a gweithwyr proffesiynol cysylltiedig yn cael eu cynnwys yn y broses o ddatblygu cynlluniau personol. Mae'r dogfennau yn gyfredol, gyda chanllawiau cywir ar y ffordd orau o gefnogi'r bobl i gyflawni eu canlyniadau unigol. Mae'r bobl yn adolygu eu cynlluniau bob mis gyda'u gweithwyr allweddol, sy'n eu helpu i asesu, adolygu ac addasu'r nodau y maent yn gweithio tuag atynt. Mae asesiadau risg cadarnhaol yn helpu i gynnal diogelwch ac yn annog y bobl i fod mor annibynnol â phosibl. Mae'r gweithwyr Iechyd a gofal Cymdeithasol proffesiynol yn cael eu cynnwys ac mae eu cyngor yn cael ei adlewyrchu yn y cynlluniau.

Mae'r bobl yn aelodau gweithredol o'u cymuned leol ac yn mwynhau siopa a bwyta allan, defnyddio cyfleusterau hamdden ac yn aelodau o amrywiaeth o gybiau cymdeithasol. Mae'r gweithwyr cymorth yn helpu'r bobl i gynnal eu cartrefi eu hunain, siopa drostynt eu hunain, rheoli eu meddyginiaeth eu hunain a hyrwyddo ffordd iach o fyw. Dywedodd y bobl wrthym am yr effaith gadarnhaol mae'r gefnogaeth hon wedi cael ar eu bywydau a pha mor dda mae'r gwasanaeth wedi eu galluogi i gyflawni eu canlyniadau.

## **Arweinyddiaeth** a Rheolaeth

Mae trefniadau effeithiol iawn ar waith ar gyfer monitro, adolygu a gwella ansawdd y gwasanaeth. Mae'r darparwr wedi cyflwyno system sicrhau ansawdd newydd gydag archwiliadau manwl a chynlluniau gweithredu i ymdrin ag unrhyw faterion a nodwyd. Mae'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ac yn gweithio yn y gwasanaeth yn adnabod yr Unigolyn Cyfrifol yn dda. Mae ymweliadau chwarterol statudol yr Unigolyn Cyfrifol yn gynhwysfawr gan ei bod yn edrych ar nifer o archwiliadau ac yn cynnwys y bobl a'r staff. Caiff gwybodaeth o'r archwiliadau ansawdd hyn, ynghyd ag unrhyw wersi a ddysgwyd ac adborth gan y bobl, eu cynrychiolwyr a gweithwyr proffesiynol eu defnyddio yn yr Adolygiad o Ansawdd y Gofal a gynhelir bob chwe mis.

Mae systemau effeithiol ar waith i sicrhau bod y ddogfennaeth yn gyfredol ac yn cefnogi'r staff i helpu'r bobl i gyflawni eu canlyniadau. Mae'r rheolwr wedi creu diwylliant sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn y gwasanaeth, sy'n galluogi pobl i fod mor annibynnol â phosibl a chyflawni canlyniadau llesiant cadarnhaol.

Mae'r staff yn cael sesiynau goruchwylio un i un rheolaidd ac arfarniad blynyddol, maent yn disgrifio'r rheolwr fel unigolyn trefnus, hygyrch a chefnogol. Mae gan y gweithwyr cymorth dealltwriaeth gadarn ynghylch diogelu ac maent yn hyderus i roi gwybod am unrhyw bryderon a allai fod ganddynt i'r rheolwr, y darparwr neu'r awdurdod lleol. Mae gan y gweithwyr cymorth dealltwriaeth dda o'r polisïau a'r gweithdrefnau allweddol sy'n tywys arferion da.

Caiff gwiriadau cyn cyflogi megis geirdaon, hawl i weithio a'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd eu cynnal cyn i gyflogeion newydd ddechrau gweithio. Mae'r gweithwyr cymorth yn cael cyfuniad o hyfforddiant gorfodol ar-lein ac wyneb yn wyneb. Mae hyfforddiant sy'n benodol i'r unigolyn hefyd yn helpu'r gweithwyr cymorth i ddiwallu anghenion unigol y bobl yn effeithiol. Mae'r gweithwyr cymorth yn cofrestru â rheoleiddiwr y gweithlu, Gofal Cymdeithasol Cymru, ac yn cael sgiliau pellach drwy gymwysterau proffesiynol.

Mae'r rheolwr yn sicrhau bod nifer digonol o weithwyr gofal ar gael i ddiwallu anghenion a dewisiadau unigol y bobl. Mae'r tîm o weithwyr cymorth cyfarwydd a chyson wedi meithrin cydberthnasau  llawn ymddiriedaeth â'r bobl sydd wedi galluogi iddynt gyflawni canlyniadau llesiant cadarnhaol.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni hyn, a byddwn yn ystyried y mater hwn eto yn ystod yr arolygiad nesaf.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 31/10/2024